OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 No. 202

## Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017

## RHAN 5

### Amrywiol

**Diwygiadau i Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011**

**38.**—(1) Yn rheoliad 2(1) (dehongli) yn y lleoedd priodol mewnosoder—

"ystyr "hylenydd deintyddol" ("*dental hygienist*"), "therapydd deintyddol" ("*dental therapist*") a "technegydd deintyddol clinigol" ("*clinical dental technician*") yw personau sydd wedi eu cofrestru felly â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn y gofrestr o broffesiynolion gofal deintyddol a sefydlwyd o dan adran 36B o Ddeddf Deintyddion 1984;";

"ystyr "proffesiynolyn gofal deintyddol" ("*dental care professional*") yw—

(a) hylenydd deintyddol;

(b) therapydd deintyddol; neu

(c) technegydd deintyddol clinigol;".

(2) Yn rheoliad 3 (ystyr "ysbyty annibynnol") ar ôl paragraff (2)(b) mewnosoder—

"(ba) triniaeth ddeintyddol sy'n defnyddio cynnyrch laser Dosbarth 4 pan fo'r driniaeth honno yn cael ei chyflawni gan neu o dan oruchwyliaeth deintydd neu broffesiynolyn gofal deintyddol sy'n gweithio mewn practis deintyddol preifat o fewn ystyr Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017;".